**Ail Gyfarfod Llawn y Cynulliad (3)**

**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 20 Mai 2003**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm.**

**Cynnig i ethol Panel y Cadeiryddion**

**Cynigodd y Trefnydd y cynnig a ganlyn i ohirio'r Rheolau Sefydlog**
*NDM1480 - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 34.4 yn cytuno i ohirio rheol sefydlog 6.12 fel y gellid trafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 20 Mai 2003, y cynnig heb ddyddiad trafod (NNDM1479) a gyflwynwyd heddiw.*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 2; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig i ohirio'r rheolau sefydlog**

**Cynnig i ethol Panel y Cadeiryddion**
*Cynigodd y Trefnydd y cynnig a ganlyn i ohirio'r Rheolau Sefydlog:*
*NNDM1479* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 57(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 9.3, yn ethol yr aelodau a ganlyn i'r panel lle y dewisir cadeiryddion y pwyllgorau pwnc:

Rosemary Butler
Janice Gregory
Christine Gwyther
Ann Jones
Alun Ffred Jones
David Melding
Peter Black

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Cymeradwywyd y Cynnig**

**Cynnig cynigion i ethol y 7 Pwyllgor Pwnc - *Ni chyflwynwyd cynnig***

**Cynnig cynigion i ethol y Pwyllgorau Sefydlog - *Ni chyflwynwyd cynnig***

**Cynnig cynigion i ethol Pwyllgorau'r Cynulliad sydd ar ôl - *Ni chyflwynwyd cynnig***

**2.03pm**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru.**
Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl.

**2.52pm**
**Pwynt o Drefn yn ymwneud â'r Cwestiynau**
**Alun Cairns** ar hyd yr atebion i'r cwestiynau llafar.
Cadarnhaodd y **Llywydd** fod y canllawiau ar Gwestiynau'r Cynulliad yn nodi bod rhaid i'r atebion fod yn gryno**.**

**2.54pm**
**Datganiad Busnes**
Gwrthwynebodd mwy na 10 o Aelodau y datganiad busnes
**Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:**
O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 16; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y datganiad busnes**

**2.59pm**
**Pwynt o Drefn**
**Nick Bourne** ar atebion i gwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd cyn cyfnod yr etholiad.

Cadarnhaodd y **Llywydd** y gall Gweinidogion ateb cwestiynau a gyflwynwyd yn y Cynulliad Cyntaf.

**3.02pm**
**Dadl ar Gyflwr y Genedl**
*NDM1476* - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'n unol â'r maniffesto a gafodd sêl bendith pobl Cymru ar 1 Mai 2003, ac i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gan y Llywodraeth flaenorol ac mewn partneriaeth â Llywodraeth San Steffan, yn dod â mwy o ffyniant a lles cymdeithasol i bobl ledled Cymru, yn unol ag egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol.

*Gellir gweld y maniffesto ar y Rhyngrwyd drwy glicio ar y cyswllt.*
http://www.llafurcymru.org.uk/policies/index.html*.*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol' a rhoi yn ei le 'yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau:
1. ei bod yn cadw at ei haddewidion yn well na'r Llywodraeth flaenorol;
2. ei bod yn dod â mwy o ffyniant a lles cymdeithasol i bobl ledled Cymru, yn unol ag egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol;
3. bod y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn fwy tryloyw ac atebol; ac
4. ei bod yn gwneud datganiad cynnar ar yr angen am bwerau deddfu sylfaenol a'r grym i amrywio lefelau trethi.

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Ar ôl 'i weithredu' dileu 'â’r' a rhoi 'â maniffesto Plaid Lafur Cymru' yn ei le

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Dileu ‘a gafodd sêl bendith pobl Cymru ar 1 Mai 2003,'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ôl 'a gafodd sêl bendith' ychwanegu ‘15% o bobl'

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl '2003' a rhoi yn ei le;
‘arwain at gadw addewidion, gwella gwasanaethau cyhoeddus, a throi cynnydd mewn gwariant yn fuddsoddiad effeithiol.’

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Ychwanegu ‘gobeithio,’ rhwng ‘yn dod’ a ‘â mwy o ffyniant a lles cymdeithasol’

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd ag ymrwymiad y llywodraeth bartneriaeth flaenorol i ostwng maint pob dosbarth mewn ysgolion cynradd i 25 neu lai o fewn ail dymor y Cynulliad Cenedlaethol.’

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 10; Ymatal 0; Yn erbyn 45; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55

**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**Y cynnig**
O blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 55
**Cymeradwywyd y Cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.12pm.**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher 21 Mai 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

**Dogfennau a Osodwyd ar 20 Mai 2003**

- Welsh Assembly Government's Response to the Audit Committee Report on ELWa - LD2099 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

**Dogfennau a Osodwyd ar 16 Mai 2003**

- Food Standards Agency Departmental Report May 2003 - LD2098 Dim fersiwn Gymraeg ar gael